OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2007 No. 3573

## Rheoliadau Fformiwla Fabanod a Fformiwla Ddilynol (Cymru) 2007

**Cymhwyso amryfal adrannau o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990**

**29.** Mae darpariaethau canlynol y Ddeddf yn gymwys ar gyfer dibenion y Rheoliadau hyn gyda'r addasiad bod unrhyw gyfeiriad yn y darpariaethau hynny at y Ddeddf neu at Ran ohoni i'w ddehongli fel cyfeiriad at y Rheoliadau hyn—

(a) adran 3 (rhagdybiaethau bod bwyd wedi'i fwriadu i'w fwyta gan bobl);

(b) adran 20 (tramgwyddau oherwydd bai person arall);

(c) adran 21 (amddiffyniad diwydrwydd dyladwy)(**1**), gyda'r addasiadau bod is-adrannau (2) i (4) i fod yn gymwys mewn perthynas â thramgwydd o dan reoliad 28 sy'n mynd yn groes i reoliad 3, 4 neu 13 neu'n methu â chydymffurfio â hwy fel y maent yn gymwys mewn perthynas â thramgwydd o dan adran 14 neu 15 ac yn is-adran (4)(b) dylid barnu bod y cyfeiriadau at "sale or intended sale" yn gyfeiriadau at "marketing or as the case may be placing on the market";

(ch) adran 30(8) (sy'n ymwneud â thystiolaeth ddogfennol);

(d) adran 33(1) (rhwystro etc. swyddogion);

(dd) adran 33(2), gyda'r addasiad y bernir bod y cyfeiriad at "any such requirement as is mentioned in subsection (1)(b) above" yn gyfeiriad at unrhyw ofyniad o'r fath ag a grybwyllir yn adran 33(1)(b) fel y'i cymhwysir gan is-baragraff (d);

(e) adran 35(1) (cosbi tramgwyddau)(**2**), i'r graddau y mae'n ymwneud â thramgwyddau o dan adran 33(1) fel y'i cymhwysir gan baragraff (d);

(f) adran 35(2) a (3)(**3**), i'r graddau y mae'n ymwneud â thramgwyddau o dan adran 33(2) fel y'i cymhwysir gan baragraff (dd);

(ff) adran 36 (tramgwyddau gan gyrff corfforaethol);

(g) adran 36A (tramgwyddau gan bartneriaethau Albanaidd)(**4**); ac

(ng) adran 44 (amddiffyn swyddogion sy'n gweithredu yn ddidwyll).

(**1**) Diwygiwyd adran gan O.S. 2004/3279.
(**2**) Diwygir adran 35(1) gan Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 2003 (2003 p. 44), Atodlen 26, paragraff 42, o ddyddiad sydd i'w bennu.
(**3**) Diwygiwyd adran 35(3) gan O.S. 2004/3279.
(**4**) Mewnosodwyd adran 36A gan Ddeddf Safonau Bwyd 1999 (1999 p.28), Atodlen 5, paragraff 16.